# Cofnodion Cyfarfod Blynyddol Cyngor Cymuned Pistyll



## Y Ganolfan, Llithfaen

Nos Fawrth 14eg o Fai, 2019 am 6.30 y.h.

Cadeirydd: Y Cyng. Griffith John Lesley Jones

**Presennol -** Griffith Jones **(GJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**, John Owen **(JO)**, Gwilym Williams **(GW)**, Ynyr Ellis **(YE)**, Lizbeth James **(LJ)**, William Jones **(WJ)**, a'r Cyng. Aled Wyn Jones **(AWJ)**, Sara Williams **(SW)**.

1. **Ymddiheuriadau ac Absenoldeb**
   Olwen Roberts **(OR),** Emlyn Hughes **(EH)**

2. **Ethol Cadeirydd ac Is Gadeirydd**
   Cynigiodd SP enw Sara Williams fel Cadeirydd am 2019/20. Eiliodd LJ a chytunodd pawb.
   Cynigiodd LJ enw Ynyr Ellis fel Is-gadeirydd am 2019/20. Eiliodd SP a chytunodd pawb.

3. **Ffurflenni derbyn swydd**
   Cwblhawyd Ffurflen derbyn swydd gan yr Aelodau a oedd yn bresennol. Cynigiodd LJ fod yr Aelodau nad oeddynt yn bresennol yn cwblhau eu ffurflenni derbyn swydd yn ystod y cyfarfod cyffredin nesaf o'r Cyngor y byddant yn bresennol, Eiliwyd gan SW a mabwysiadwyd y cynnig.

4. **Cadarnhau cywirdeb cofnodion Cyfarfod Blynyddol y Cyngor 8fed o Fai 2018**
   Cynigiodd LJ fod y cofnodion yn gywir. Eiliodd GJ a chytunodd pawb.

5. **Derbyn cofnodion cyfarfod diwethaf pwyllgor**
   Penderfynwyd derbyn y Cofnodion Cyffredinol yn ystod y Cyfarfod I ddilyn.

6. **Ystyried argymhellion a wnaed gan bwyllgor**
   Dim yn berthnasol

7. **Adolygu trefniadau dirprwyo i bwyllgorau, is-bwyllgorau, staff ac awdurdodau lleol eraill; (yn cynnwys Swyddog Priodol a Swyddog Ariannol Cyfrifol)**

   - **Pwyllgor y Ganolfan –** Cynigiodd LJ fod y drefn ddirprwyo i Bwyllgor y Ganolfan i barhau fel ac y mae. Eiliwyd y cynnig gan JO a chytunodd pawb.

   - **Swyddog Priodol a Swyddog Ariannol Cyfrifol-** Cynigiodd GJ fod y Clerc yn parhau yn y swyddogaethau hyn Eiliwyd y cynnig gan JO a chytunodd pawb.

8. **Adolygu cylchoedd gorchwyl pwyllgorau**
   Cynigiodd SW fod Cylch Gorchwyl Pwyllgor y Ganolfan i barhau fel ac y mae. Eiliwyd y cynnig gan JO ac fe'i mabwysiadwyd.

Llofnodwyd yn gywir gan : Dyddiad:

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979 438 307*

9. **Penodi aelodau ar bwyllgorau presennol**

- **Pwyllgor y Ganolfan -** Cynigiodd JO fod Sianelen Pleming, Lisbeth James a Griffith Jones yn parhau i gynrychioli'r Cyngor Cymuned ar Bwyllgor y Ganolfan. Eiliwyd y cynnig gan YE ac fe'i mabwysiadwyd.

10. **Penodi unrhyw bwyllgorau newydd yn unol â rheol sefydlog 4**
Dim yn berthnasol

11. **Adolygu a mabwysiadu rheolau sefydlog a rheoliadau ariannol priodol**
Adolygwyd y Rheolau Sefydlog a'r Rheoliadau Ariannol a fabwysiadwyd yng nghyfarfod Blynyddol y Cyngor 2018. Cynigiodd JO fod y Cyngor yn eu mabwysiadu eto eleni. Eiliwyd gan YE ac fe'u mabwysiadwyd.

12. **Adolygu trefniadau, gan gynnwys unrhyw siartrau a chytundebau asiantaeth, gydag awdurdodau lleol eraill ac adolygu cyfraniadau a wnaed i wariant a wneir gan awdurdodau lleol eraill**
Dim yn berthnasol

13. **Adolygu cynrychiolaeth ar neu waith gyda chyrff allanol a threfniadau ar gyfer adrodd yn ôl**

- **Pwyllgor Ardal Un Llais Cymru**
Cynigiodd SP fod y Clerc yn cynrychioli'r Cyngor Cymuned ar y Pwyllgor hwn pan fo'n berthnasol ac yn adrodd yn ôl fel y bo'r angen. Eiliwyd y cynnig gan JO ac fe'i mabwysiadwyd

14. **Adolygu stocrestr o dir ac asedau gan gynnwys adeiladau ac offer swyddfa**
Adolygwyd y stocrestr, cadarnhaodd y Clerc bod y Maes Parcio yn dop y Nant wedi ei ychwanegu i restr Asedau'r Cyngor. Cynigiodd SP iddi gael ei mabwysiadu. Eiliodd LJ ac fe'i mabwysiadwyd.

15. **Cadarnhau trefniadau ar gyfer gwarant yswiriant ar gyfer pob risg yr yswiriwyd ar eu cyfer**
Cadarnhaodd y Clerc for y Maes Parcio wedi ei ychwanegu I Bolisi Yswiriant y Cyngor. Bydd Polisi yswiriant y Cyngor ynghyd a'r asesiad risg yn cael eu hadolygu yng nghyfarfod cyffredin mis Mai yn flynyddol. Cynigiodd LJ fod y Cyngor yn cadarnhau'r drefn bresennol. Eiliodd JO a mabwysiadwyd y drefn honno.

16. **Adolygu tanysgrifiadau'r Cyngor a/neu staff i gyrff eraill**
Adolygwyd tanysgrifiadau'r Cyngor. Cynigiodd LJ fod y Cyngor yn talu'r tanysgrifiad dyledus i Un Llais Cymru yn flynyddol. Eiliodd SP a mabwysiadwyd yr ymrwymiad.

17. **Adolygu gweithdrefn cwynion y Cyngor**
Cynigiodd SP i dderbyn y weithdrefn. Eiliodd GW a fei mabwysiadwyd.

18. **Adolygu gweithdrefnau'r Cyngor ar gyfer trin ceisiadau a wnaed o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 a Deddf Diogelu Data 1998**
Cynigiodd SP dderbyn y Polisi, eiliodd JO a fei mabwysiadwyd

19. **Adolygu Polisi'r Cyngor ar gyfer delio â'r wasg/cyfryngau**
Cynigiodd LJ I dderbyn y Polisi , eiliodd WJ a fei mabwysiadwyd

20. **Adolygu a mabwysiadu'r Cod Ymddygiad**
Adolygwyd y Cod Ymddygiad, Cynigiodd WJ ac eiliwyd y cynnig gan i'r Cyngor ei derbyn a fei mabwysiadwyd

21. **Cadarnhau Cynlluniau cronfeydd wrth gefn**
Penderfynwyd yn flaenorol bod y Cyngor yn cadw cronfa'r Diffiblwr yn y Cyfrif Cadw, hefyd penderfynwyd bydd angen cadw cronfa wrth gefn tuag at finiau baw ci yn y pentref. Cynigiodd SP ac eiliodd WJ gadw i'r ymrwymiad hwn a fei mabwysiadwyd.

Llofnodwyd yn gywir gan : Dyddiad:

22. **Adolygu trefniadau Lwfans Cynghorwyr**
Adolygwyd y drefn derbyn Lwfans Cynghorwyr, cynigiodd LJ ac eiliodd JO a chytunwyd pawb yn bresennol i beidio â derbyn y lwfans am y flwyddyn 2019 -20.

23. **Adolygu Ffurflen Flynyddol I'r Archwiliad Allanol (BDO) 2018-2019**
Adolygwyd y Ffurflen flynyddol, cynigiodd JO ei chywirdeb, eiliodd LJ a chytunodd pawb**.**

24. **Pennu amser a lle cyfarfodydd cyffredin y Cyngor Llawn hyd at ac yn cynnwys cyfarfod blynyddol nesaf y cyngor llawn.**
Cynigiodd SP I'r Cyngor gadw i'r rhy'n drefn a llynedd sef bydd y Cyngor yn cyfarfod ar yr ail Nos Fawrth yn fisol am 7pm a'r Cyfarfod Blynyddol I'w gynnal am 6.30 yr ail nos Fawrth yn fis Mai.  Eiliwyd y cynnig gan WJ a fei mabwysiadwyd.

Llofnodwyd yn gywir gan :                                        Dyddiad: